The Methodist Church in Wales
Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Wales Synod Cymru

# Reports 2023

**Synod Cymru Wales – Cyflwyniad i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23**

Daeth Synod Cymru i fodolaeth ar 1 Medi 2022 a chroesawyd y Parchg Ddr Jonathan Hustler, Ysgrifennydd y Gynhadledd, i gysegru'r Synod yn ein cyfarfod yn y Drenewydd ar 10 Medi. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Synod newydd ei thraed dani o dipyn i beth wrth i'r Tîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Polisi a chyfarfodydd eraill gael eu cynnal am y tro cyntaf, ac wrth i Synod y Gweinidogion gyfarfod am y tro cyntaf yn Y Fenni ar 22 Mawrth 2023. Croesawyd cynrychiolwyr y Synod yn gynnes i'r Gynhadledd Fethodistaidd yn Birmingham ar 24ain-29ain Mehefin, a dangoswyd llawer o gefnogaeth a diddordeb gan y Cyfundeb yn ei gyfanrwydd.

Ym mis Gorffennaf 2023 cafwyd cyfres o gyfarfodydd i fynegi gwerthfawrogiad i'r Parchg Ddr Stephen Wigley ar ddiwedd ei gyfnod fel Cadeirydd. Yn ystod yr haf hefyd paratowyd i groesawu'r Parchg Andrew Charlesworth yn Gadeirydd newydd yn y Synod. O dan Dduw, gosododd y flwyddyn sylfaen dda i'n gwaith pellach.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl bobl, lleyg ac ordeiniedig, sy'n gwasanaethu pobl Fethodistiaid Cymru yn ffyddlon mewn llawer o wahanol ffyrdd. Disgrifir gwaith y Pwyllgorau a'r prosiectau allweddol yn y llyfryn adroddiadau hwn sy'n rhoi cipolwg ar y cyfan a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf ein Synod ddwyieithog. Erfynnir arnoch i fyfyrio ar yr adroddiadau hyn a'r holl waith y maent yn ei gynrychioli. Wrth inni edrych yn ôl ar y 12 mis diwethaf, mae arnom hefyd eisiau edrych ymlaen wrth i ni barhau i annog swyddogion y Dalaith, ein gweinidogion a'n gweithwyr, y cylchdeithiau a'r eglwysi i barhau i fyw eu ffydd yma yng Nghymru.

**Wales Synod Cymru– Introduction to the Annual Report for 2022-23**

Wales Synod Cymru came into being on 1st September 2022 and we welcomed Rev Dr Jonathan Hustler, Secretary of Conference, to dedicate the Synod at our meeting in Newtown on September 10th. Over the year, the new Synod gradually found its feet as Leadership Team, Policy Committee and other meetings were held for the first time, and as the first Presbyteral Synod met in Abergavenny on 22nd March 2023. Synod representatives were warmly welcomed to the Methodist Conference in Birmingham from 24th-29th June, with much support and interest shown from across the connexion.

July 2023 saw a series of gatherings to express appreciation to Rev Dr Stephen Wigley towards the end of his appointment as a District Chair in Wales, and over the summer, preparations were made to welcome Rev Andrew Charlesworth as a new Chair in the Synod. Under God, the year laid a good foundation to ongoing work.

We are so grateful to the many people, lay and ordained, who faithfully serve the Methodist people of Wales in many different ways. The work of key Committees and projects is described in this report booklet and provides a snapshot of all that has been done during the first year of our bilingual Synod. Please do take time to reflect on these reports and all the work that it represents. As we look back on the last 12 months, we also do want to look forward as we continue to encourage our District Officers, Ministers, Employees, Circuits and Churches Circuit to continue to live out their faith throughout this beautiful land.

**Adroddiad Pwyllgor Polisi Synod Cymru Wales 2022/23**

Cyfarfu Pwyllgor Polisi'r Synod deirgwaith yn ystod blwyddyn gyntaf y Synod newydd (Hydref 2022, Chwefror 2023 a Mehefin 2023) gan ymgymryd â'r gwaith o sicrhau bod y Synod yn rhedeg yn esmwyth wedi i gyfarfod blynyddol y Synod sefydlu'r cyfeiriad polisi.

Cytunodd y Pwyllgor Polisi y dylid defnyddio agenda safonol ar gyfer pob cyfarfod. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl faterion angenrheidiol yn cael sylw. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb byr o waith y Pwyllgor a gellir cael y cofnodion llawn drwy ofyn i gynrychiolwyr y Cylchdeithiau.

Cyllid: derbyn a chymeradwyo cyfrifon 2021/22 a chytuno ar y gyllideb ar gyfer y Cylchdeithiau a threthiant yr eglwysi am y flwyddyn i ddod.

Derbyn a chymeradwyo papurau yn ymwneud â chreu'r Synod Cymru Wales newydd ac integreiddio'r ddwy Synod flaenorol i'r corff newydd, gan gynnwys yr holl gyllid ac asedau.

Cynnig estyniad am ddwy flynedd o fis Medi 2024 ymlaen i'r Parchedig Ddr Jennie Hurd, fel un o ddau Gadeirydd Synod Cymru Wales – hyn i'w gyflwyno i'r Gynhadledd i gael cymeradwyaeth.

Derbyn adroddiadau gan y canlynol: Pwyllgor Mansys, Grŵp Cenhadaeth, Ecwmeniaeth a Dysgu, sef Y Cyngor gynt), cynrychiolydd ar y Cyngor Methodistaidd, Momentwm, Diogelu, cymeradwyo ceisiadau am gyfnodau sabothol a derbyn adroddiadau ar y cyfnodau hyn, derbyn ceisiadau i awdurdodi lleygwyr i ddathlu'r Cymun Bendigaid.

Cymeradwyo cau eglwysi Methodistaidd Llandrillo-yn-Rhos, Rhuddlan a Phontarddulais, Tredelerch (Caerdydd), Trelái a Langstone a diddymu'r cytundeb rhannu yn Eglwys Dewi Sant Tŷ Sign.

Cymeradwyo Diacon rhan-amser yng nghylchdaith Caerdydd a phenodi swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Synod.

Yng nghyfarfod Mehefin 2023, diolchwyd yn ddiffuant i'r Parchedig Ddr Stephen Wigley am ei holl flynyddoedd o wasanaeth fel Cadeirydd Wales Synod, ac yn fwy diweddar fel Cadeirydd yn y Synod newydd, gan ddymuno'n dda iawn iddo ar ddiwedd y cyfnod hwn ac yn ei waith yn awr fel gweinidog rhan-amser yng Nghylchdaith Caerdydd.

Pwyllgor Polisi'r Synod

**Wales Synod Cymru Policy Committee Report 2022/23**

Synod Policy Committee (SPC) met three times during the year (October 2022, February 2023 and June 2023) in the first year of the new Wales Synod Cymru, assuming its role of ensuring the smooth running of the Synod once the annual Synod Meeting had established its policy direction.

SPC agreed a standard agenda would be used for each meeting, thus ensuring all necessary topics were addressed and dealt with. This report is a brief summary of the work of SPC and full details of minutes can be obtained from each Circuit representative or from the Synod web page.

Finance: receiving and approving 2021/22 accounts and looking forward, agreeing the Circuit budget and church Assessments for the coming year.

Receiving and approving papers relating to the creation of the new Wales Cymru Synod and the integration of the two former Synods into the new body, including all finances and assets.

Offering an extension from September 2024 for two years to Rev Dr Jennie Hurd as one of the two Chair for Wales Synod Cymru to be presented to Conference for approval.

Receiving reports from the following: Manse Committee, the MEL Group (Mission, Ecumenism, and Learning Group, formerly Y Cyngor), Methodist Council representative, Momentŵm, Safeguarding, approving sabbatical requests and receiving sabbatical reports, receiving requests for lay authorisation to preside at Holy Communion.

Approving the closure of Rhos on Sea, Rhuddlan and Pontarddulais, Rumney (Cardiff), Ely, Langstone Methodist churches and dissolving the sharing agreement at St. David's Tŷ Sign.

Approval of a part time Deacon in the Cardiff circuit, the appointment of an EDI officer for the synod

At the June 2023 meeting, sincere thanks were given to Rev Dr Stephen Wigley for the many years he has been Chair of Wales Synod and recently Wales Cymru Synod and very best wish as he moves from his role of Chair of Wales Cymru Synod to a part time presbyter role in the Cardiff Circuit.

The Synod Policy Committee

**Adroddiad Cyllid y Synod**

Mae cyfrifon y flwyddyn yn dangos incwm £24,745 yn fwy na'r gyllideb, gwariant £41,855 yn fwy na'r gyllideb a throsglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn £14,573 yn fwy na'r gyllideb, gan arwain at ddiffyg o £2,536.

Telir i weithwyr lleyg y Synod trwy gyflogres y Cyfundeb. Os yw gweithwyr lleyg yn gweithio mewn cylchdaith benodol am ran o’u horiau wythnosol, trosglwyddir y gost i’r gylchdaith honno. Dim ond gweddill yr amser, sy’n cael ei weithio i’r Synod, a gynhwyswyd yn y gyllideb ac felly mae'r cynnydd mewn incwm (a adlewyrchir yn Incwm Amrywiol) yn cael ei gyfateb gan wariant ychwanegol yn y llinell wariant berthnasol, er enghraifft Diogelu.

Mae cynnydd hefyd i’w weld o ran incwm oherwydd bod grant Cyfundebol wedi’i gytuno ar ôl gosod y gyllideb, i gefnogi gwaith un o Ddiaconiaid y Synod. Mae'r incwm ychwanegol wedi'i gyfateb gan fwy o wariant ar Benodiadau Diaconiaid.

Mae gwaith adnewyddu ar y mans yng Nghaerdydd wedi ei ariannu o’r gronfa wrth gefn ar gyfer gwaith ar fansys.

Mae gwariant ychwanegol Momentwm wedi'i ariannu o gronfa Momentwm.

Newidiodd y Cyngor Ysgolion Sul o ôl-anfonebu i anfonebu ymlaen llaw, gan arwain at dderbyn 2 anfoneb am £3,000 yn ystod y flwyddyn. Dim ond un anfoneb oedd yn y gyllideb.

Cynyddodd costau swyddfa’r Synod yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gyfran y mae’r Synod yn ei thalu o gostau’r cyfleustodau yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, lle mae swyddfa’r Synod.

**Synod Finance Report**

The accounts for the year show income £24,745 above budget, expenditure £41,855 more than budget and transfers from reserves £14,573 more than budget, resulting in a deficit of £2,536.

Synod lay employees are paid through the Connexional payroll. Where part of a lay employee's weekly hours are for work in a particular circuit their payroll cost is passed on to that circuit. Only the net amount of Synod time was included in the budget so the increase in income (reflected in Miscellaneous Income) is matched by additional expenditure in the relevant expenditure line, for example Safeguarding.

Income is also up due to a Connexional grant being agreed after the budget was set, to support the work of a Synod Deacon. The additional income has been matched by greater spend on Diaconal Appointments.

Refurbishment work on the Cardiff manse has been funded from the manse reserve.

The additional Momentŵm spend has been funded from the Momentŵm reserve.

The Sunday Schools Council changed from invoicing in arrears to invoicing in advance, resulting in 2 invoices for £3,000 being received during the year. Only one invoice was budgeted.

Synod office costs increased mainly reflecting the increase in Synod's share of utility costs incurred by Cyncoed Methodist Church, where the Synod offices reside.

## Methodist Church in Wales - Wales Synod Cymru
## Income and Expenditure Account
## For the year ended 31 August 2023

| | Actual £ | Budget £ | var £ |
|---|---|---|---|
| Income | | | |
| Connexional contribution | 12,335 | 1,200 | 11,135 |
| Grants Received | 207,423 | 213,284 | (5,861) |
| Synod Assessment from Circuits | 59,770 | 60,613 | (843) |
| Miscellaneous Income | 20,314 | - | 20,314 |
| **Total Income** | **299,841** | **275,096** | **24,745** |
| | | | |
| Expenses | | | |
| Assistant Chairs | 18,657 | 21,700 | 3,043 |
| CDiM and HE Training | 2,210 | 4,000 | 1,790 |
| Chair's other expenses | 5,640 | 4,000 | (1,640) |
| Chair's Secretary and Admin | 19,883 | 18,000 | (1,883) |
| Chair's Travel | 8,160 | 8,000 | (160) |
| Chaplaincy (H.E. Cardiff) | 42,771 | 43,100 | 329 |
| Conference | 631 | 1,200 | 569 |
| Deaconal Appointments | 31,887 | 23,292 | (8,595) |
| Emergency Circuit Support (Covid 19) | - | - | - |
| Grant for Cardiff Circuit | - | - | - |
| Lay Employment Officer | 507 | 1,000 | 493 |
| Manse Llwyn y Grant Rd | 25,422 | 8,200 | (17,222) |
| Ministers retreat | - | 2,500 | 2,500 |
| Miscellaneous expenses | 734 | 500 | (234) |
| Momentwm (Youth) | 6,082 | 3,300 | (2,782) |
| Youth Work | 1,500 | 1,500 | - |
| Methodist Action on Poverty and Justice | - | - | - |
| Pension contribution | - | - | - |
| Safeguarding | 58,637 | 38,263 | (20,375) |
| Sunday Schools Council | 6,000 | 3,000 | (3,000) |
| Superintendents' meeting | 4,152 | 2,500 | (1,652) |
| Synod committees and travel | 3,007 | 4,100 | 1,093 |
| Synod Contribution to Connexion | 26,078 | 27,260 | 1,182 |
| Reserves contribution to Connexional Assessment | 18,747 | 18,747 | - |
| Synod Enabler (Culturally Diverse Congregations) | 44,563 | 49,500 | 4,937 |
| Synod Office Costs | 13,589 | 6,900 | (6,689) |
| Synod Secretary | - | 1,782 | 1,782 |
| Training | 840 | 4,500 | 3,660 |
| Y Cyngor | - | 1,000 | 1,000 |
| **Total Expenses** | **339,698** | **297,843** | **(41,855)** |
| | | | |
| **Income less Expenditure** | **(39,856)** | **(22,747)** | **(17,110)** |
| Transfers from/to reserves (net) | 37,320 | 22,747 | 14,573 |
| | **(2,536)** | **0** | **(2,536)** |

**Pwyllgor Eiddo'r Synod**

Yn y flwyddyn gyfundebol 2022 - 23, agorwyd 43 o brosiectau ar y System Ganiatadau. O'r rhain, roedd 17 ar gyfer gwerthu eiddo, pob un ohonynt yn gapeli. Pan ysgrifennir yr adroddiad hwn, mae 23 o'r prosiectau wedi derbyn caniatâd, ac mae'r lleill yn aros i eglwysi, cylchdeithiau neu adran gyfreithiol yr Ymddiriedolwyr dros Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd weithredu.

Mae'n gwbl amlwg fod angen cynnwys strategaeth eiddo ym Mholisïau Cenhadol y Cylchdeithiau a'r Dalaith a bydd yr adolygiad o Strategaeth Cenhadaeth y Synod yn cynnwys ffocws ar sut y gall eiddo gefnogi neu lesteirio cenhadaeth a'r cyfleoedd ar gyfer gwneud defnydd arloesol o'n hadeiladau na ddefnyddir mwyach ar gyfer addoliad, er mwyn cefnogi cymunedau.

Cyflwynodd Deddf Elusennau 2022 newid yn y derminoleg sy'n disgrifio'r adroddiad proffesiynol sydd ei angen wrth werthu eiddo. Bellach mae angen Adroddiad Ymgynghorydd Dynodedig yn hytrach nag Adroddiad Syrfëwr Cymwysedig. Er bod y newidiadau'n gymharol fach, a'u bod yn golygu y gall mwy o bobl gyflawni'r rôl hon, mae wedi golygu gwaith ychwanegol i TMCP wrth baratoi canllawiau ar gyfer Ymddiriedolwyr Rheolaethol. Mae'r llwyth gwaith a ddaw yn sgil gwerthiannau yn parhau i greu anawsterau i TMCP wrth geisio ymdrin â phrosiectau o fewn yr amserlen a ddisgwylir gan Ymddiriedolwyr Rheolaethol. Maent yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio trefn symlach gyda thrafodion eraill hefyd. Yn y cyfamser, gofynnir i bawb gofio'r anawsterau y maent yn gweithio oddi tanynt.

Rydym yn ddiolchgar am yr holl waith y mae Cytûn yn ei wneud ar ein rhan ac am y Bwletinau Polisi a'r diweddariadau a gyhoeddir gan Gethin Rhys, sy'n cael eu dosbarthu i bob Swyddog Eiddo Cylchdaith.

Bwriedir ailystyried cynnal cyfarfodydd Zoom rheolaidd er mwyn rhannu profiad ac arfer da, dod i adnabod ein gilydd, ac er mwyn i mi ddarganfod sut y gallaf gefnogi'r swyddogion eiddo a'r Ymddiriedolwyr Rheolaethol ym mhob cylchdaith. Rwyf hefyd yn gobeithio trefnu ymweliadau â chylchdeithiau, yn ddelfrydol mwy nag un ar y tro.

Martin Lougher

Swyddog Eiddo'r Synod

**Synod Property Committee**

In the 2022 - 23 connexional year 43 projects were entered on the Consents System. Of these, 17 were for sales, all of which were of churches. At the time of writing, 23 of these projects have received consent, the others are awaiting action by churches, circuits or Trustees for Methodist Church Purposes legal section.

The need for a property strategy to be included in Circuit and District Mission Policies is starkly apparent and the review of the Synod Mission Strategy will include a focus on how property can support or hinder mission and the opportunities for using our buildings which may no longer be used for worship in innovative ways to support communities.

The Charities Act 2022 introduced a change in the terminology describing the professional report required when selling property. A Designated Advisor's Report is now require rather than a Qualified Surveyor's Report. Although the changes are relatively small and principally extend the potential pool of advisers who can fulfil this role, it has meant additional work for TMCP in preparing guidance for Managing Trustees. The workload generated by sales continues to create difficulties for TMCP in dealing with projects in the timescale expected by Managing Trustees. They are exploring the possibility of extending the streamlining system to other types of transaction. In the meantime please allow for the constraints under which they are working.

We are grateful for all the work which Cytun does on our behalf and for the Policy Bulletins and updates issued by Gethin Rhys, which are distributed to all Circuit Property Officers.

There are plans to revisit the opportunity for regular Zoom meetings so that we can share experience and good practice, get to know each other, and so that I can find out how I can support the property personnel and the Managing Trustees in each circuit. I also hope to arrange visits to circuits, preferably more than one at a time.

Martin Lougher

Synod Property Officer (DPS)

**Adroddiad am faterion Diogelu**

Bu 2023 yn flwyddyn o weithio gyda'n gillydd.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i gydweithwyr am gynorthwyo gyda'r gwaith Diogelu o fewn eu cylchdeithiau. Rydym yn ffodus bod unigolion yn fodlon derbyn y gwaith o Swyddogion Diogelu Cylchdaith a Swyddogion Diogelu Eglwysi.

Y llynedd adroddwyd bod fersiwn newydd o'r modiwl diogelu uwch yn cael ei baratoi. Bellach y mae'r adnoddau newydd ar gael ac yr ydym yn cynnig cyrsiau diogoleu modiwl uwch yn rheolaidd. Dylid adnewyddu'r hyfforddiant priodol bob pedair mlynedd.

Bydd eleni felly yn canolbwyntio, fel arfer, ar gefnogi cylchdeithiau gydag unrhwy faterion diogelu sydd ganddynt, boed rhai newydd neu rhai cyfredol. Bydd ffocws hefyd ar hyfforddiant a recriwtio diogel. Dylid cysylltu gyda mi os oes gennych unrhyw bryder am fater diogelu yn eich Cylchdaith.

Diolch yn fawr,

Rhian Evans-Hill

Swyddog Diogelu Talaith dso.safeguarding@methodistwales.org.uk

**Report on Safeguarding Matters**

2023 was a year of Working Together.

First, I wish to thank colleagues for assisting with the Safeguarding work within our Circuits. We are fortunate that individuals are willing to take on the roles of Circuit Safeguarding Officers and Church Safeguarding Officers. It has become apparent however that some Circuits are finding it difficult to fill these positions, therefore different ways of carrying out the role must be explored.

Last year it was reported that a new version of the advanced protection module was being prepared. The new resources are now available, and we regularly offer advanced module training. The appropriate level of safeguarding course is to be renewed every four years.

This year will therefore I will concentrate, as usual, in supporting Circuits with any new or ongoing Safeguarding issues. Focus will also be on Advanced Module Training. Please contact me regarding any queries you may have regarding Safeguarding matters within your Circuit.

Thank you,

Rhian Evans-Hill

District Safeguarding Officer dso.safeguarding@methodistwales.org.uk

**Adroddiad Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod 2022/23**

Mae Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod yn goruchwylio'r Gronfa Gynnydd sydd yn ymddiriedolaeth i gefnogi prosiectau cenhadol a gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig â chenhadaeth ar draws y Synod. Mae'r gronfa hefyd yn cefnogi gweinidogaeth sy'n gysylltiedig â chenhadaeth ac mae hyn yn cynnwys Galluogwr y Synod sy'n estyn allan at gynulleidfaoedd ethnig amrywiol a gwaith ieuenctid Momentwm. Mae'r Gronfa Gynnydd wedi ymrwymo i roi arian cyfatebol pan dderbynnir grantiau gan y Cyfundeb mewn perthynas â menter Pobl Newydd i Leoedd Newydd sydd â'r nod o blannu cymunedau Cristnogol newydd ar gyfer y rhai nad ydynt eto'n rhan o eglwys sy'n bodoli eisoes. Derbyniodd Synod Cymru Wales gymeradwyaeth prosiect NPNP cyntaf eleni ar gyfer estyn allan at bobl sy'n dysgu Cymraeg yng Nghylchdeithiau Wrecsam a Bwcle a Glannau Dyfrdwy.

Ar lefel Cylchdaith rhoddir cefnogaeth i alluogwyr cenhadaeth a diaconiaid mewn rolau cefnogi neu arloesol. Mae'r Gronfa'n parhau i gefnogi'r gwaith o estyn allan yn Abertawe gyda phobl yr effeithir arnynt gan ddibyniaeth. Mae gwaith newydd yn Aberystwyth i estyn allan at bobl sydd wedi'u gwthio i'r cyrion yn sgil camwahaniaethu, yn enwedig y rhai sy'n niwroamrywiol ac yn uniaethu fel LGBTQ. Mae nifer o grantiau cenhadol bychain wedi eu rhoi i gylchdeithiau i brynu offer ar gyfer gwyliau a gorymdeithiau lleol (baneri, gazebos ac ati) yn ogystal â chefnogi cyd-gyfarfod cenedlaethol Cristnogion Wrdw.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cefnogi Swyddog Eiddo'r Synod gyda'i waith sy'n ymwneud â holl eiddo'r Synod, gan gynnwys gwerthu, gosod a chynnal a chadw. Yn ystod y flwyddyn dim ond un cynllun adeiladu mawr a gafwyd, ym Mhenarth yng Nghylchdaith Bro Morgannwg, i wella mynediad i'r anabl a lleihau'r defnydd o ynni. Manteisiodd Cylchdeithiau ac eglwysi eraill hefyd ar y gronfa Gweithredu ar yr Hinsawdd i helpu i leihau eu hôl troed carbon ac estyn allan i'r gymuned gan annog gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Roedd uno Wales Synod a Synod Cymru hefyd yn golygu uno'r ddwy Gronfa Gynnydd. Golygodd hyn fod y Gronfa Gynnydd wedi talu am rai costau ychwanegol yn y Synod. Ar hyn o bryd mae'r gronfa hefyd yn cwrdd â chostau Diogelu'r Synod.

Balans terfynol y Gronfa yn Awst 2023 oedd £1,362,232.08

| Cronfa Gynnydd y Synod | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **£** | | **Gwariant** | **£** |
| Cronfa Gynnydd y Cy-fundeb | 33063 | | Gweinidogaeth | 47692 |
| Derbyniadau Cyffredinol | 811614 | | Ymestyn Allan | 53601 |
| Cyfraniadau'r Cylchdeithi-au | 105071 | | Plant ac Ieuenctid | 47363 |
| Llog ac addasiadau | 45709 | | Adeiladau ac Atgyweirio Brys | 28037 |
| | | | Grantiau Cenhadol Bach | 1125 |
| | | | Newid Hinsawdd | 8327 |
| | | | Addoliad ar-lein ac Yme-styn Allan | 2025 |
| | | | Costau'r Synod | 110894 |
| | | | Cefnogi Cylchdeithiau | 65010 |
| | | | Gweinyddol TMCP | 3059 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **£995,457** | | **Cyfanswm y Gwariant** | **£308,633** |

**Synod Schemes and Grants Committee Report 2022/23**

The Synod Schemes and Grants Committee oversees the Advance Fund held in trust to support mission projects and mission related building work across the Synod. The fund also supports mission related ministry that includes the Synod Enabler reaching out to ethnically diverse congregations and Momentŵm youth work. The Advance Fund is committed to matching grants from the Connexion in relation to the New People for New Places initiative which aims to plant new Christian communities for those not yet part of an existing church. Wales Synod Cymru received the first NPNP project approval this year for outreach to Welsh Learners in the Wrexham and Buckley & Deeside Circuits.

At Circuit level there is support for mission enablers and deacons in supporting or pioneering roles. The Fund continues to support the outreach work in Swansea with people affected by addiction. There is new work in Aberystwyth to reach out to people marginalised by discrimination, in particular those who are neurodiverse and identify as LGBTQ. A number of small mission grants have been made to circuits to purchase equipment for outreach at local festivals and parades (banners, gazebos and the like) as well as supporting the national gathering of the Urdu Christian fellowships.

The Committee also supports the Synod Property Officer with their work related to all Synod properties, including sales, lettings and maintenance. During the year there was only one large building scheme at Penarth in the Vale of Glamorgan Circuit improving disabled access and reducing energy use. Other circuits and churches also took advantage of the Climate Action fund to help reduce their carbon footprint and reach out to the community encouraging climate change action.

The merger of the Wales Synod and Synod Cymru also meant the merger of the two Advance Funds. This resulted in some additional Synod expenses being charged to the Advance Fund. Currently the fund also meets the Synod Safeguarding costs.

The August 2023 closing balance in the Fund was £1,362,232.08

| **Synod Advance Fund** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Income** | **£** | | **Expenditure** | **£** |
| CPF Distribution | 33063 | | Ministry | 47692 |
| General Receipts | 811614 | | Outreach | 53601 |
| Circuits contributions | 105071 | | Youth & Children | 47363 |
| Interest & adjustments | 45709 | | Buildings & Urgent Repairs | 28037 |
| | | | Small Missions Grants | 1125 |
| | | | Climate Change | 8327 |
| | | | Online worship & Outreach | 2025 |
| | | | Synod Costs | 110894 |
| | | | Circuit Support | 65010 |
| | | | TMCP Admin | 3059 |
| **Total Income** | **£995,457** | | **Total Expenditure** | **£308,633** |

**Fferm Ymddiriedolaeth Fethodistaidd Amelia 2022/23**

Fferm a choetir yn cwmpasu 160 erw yw Fferm Amelia, yng nghanol prydferthwch Bro Morgannwg. Fel llawer o elusennau bach eraill, mae'r 2 flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Fferm oherwydd bu'n rhaid inni ymdopi â COVID ac wynebu tywydd eithafol. Fodd bynnag, diolch yn bennaf i ymroddiad staff a gwirfoddolwyr, mae'r Fferm yn parhau i ffynnu, gan gynnig cyfleoedd newydd ac ehangach i bobl ifanc sy'n cael trafferth gydag addysg ffurfiol trwy'r rhaglen GROW. Darperir hefyd fan gwyrdd i deuluoedd fwynhau cefn gwlad a chael bod gyda'r anifeiliaid, a chroesewir pobl o elusennau eraill y mae'r Fferm yn cynnig amgylchedd therapiwtig iddynt, megis Woody's a'r Innovate Trust.

Ers i'r Diacon John Brobbey symud ymlaen i benodiad newydd ym mis Medi 2022, ni fu gennym gaplan dynodedig (er ein bod yn parhau i ystyried y posibiliadau) ond mae ysbrydolrwydd yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar fywyd y Fferm. Dros y flwyddyn ddiwethaf aethpwyd ati i dacluso'r Labrinth Gweddi ac rydym wedi parhau i ddarparu cyfle i bobl sy'n gysylltiedig â'r Fferm gofio eu hanwyliaid. Roeddem yn falch bod y Fferm wedi bod yn rhan o raglen 'Sunday Worship' ar Radio 4 ar Sul y Pentecost ym mis Mai (gan sôn am sut mae'r Ysbryd Glân yn symud i adnewyddu wyneb y ddaear a chynnig cyfleoedd newydd i bobl gael bywyd). Cafwyd hanes y Fferm hefyd yn rhifyn Gaeaf 2023 cylchgrawn *Connexion* (yn yr erthygl 'Meithrin cymuned a natur').

Ymhlith y pethau pwysig fydd ar y gweill y flwyddyn nesaf mae agor y Caffi Cymunedol ar ei newydd wedd ar ôl y Pasg. Edrychwn ymlaen at groesawu mwy o ymwelwyr i'r Fferm wrth i'r Gwanwyn agosáu.

Y Parchg. Ddr. Stephen Wigley, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

**Amelia Methodist Trust Farm 2022/23**

The Amelia Farm comprises 160 acres of farm and woodland in the beautiful Vale of Glamorgan. In common with many other small charities, the last 2 years have proved to be challenging times for the Farm both in terms of coming through COVID and coping with extremes of weather. However, and thanks largely to the dedication of staff and volunteers, the Farm has continued to prosper, offering new and wider opportunities to young people who struggle with formal education through its GROW programme, providing a green space for families to enjoy the countryside and meet with the animals, and hosting other charities for whom the Farm offers a therapeutic environment, such as Woody's and the Innovate Trust.

Since Deacon John Brobbey moved on to a new appointment in September 2022, we have not had a designated chaplain in post (although we continue to explore possibilities for this) but spirituality remains an important aspect of the Farm's life. Over this last year work has been undertaken to tidy up the Prayer Labyrinth and we have continued to provide opportunities for folk linked with the Farm to remember their loved ones. We were pleased that the Farm featured on Radio 4's Sunday Worship on Pentecost Sunday in May (reflecting on how the Holy Spirit moves to refresh the face of the earth and offer new opportunities of life) and also that it featured in the Winter 2023 edition of the Connexion magazine (in the article 'Nurturing community and nature').

Highlights planned for this next year include the opening of the refurbished Community Café after Easter and we look forward to welcoming more visitors to the Farm as Spring draws near.

Rev. Dr. Stephen Wigley, Chair of Trustees

**Gweithredu dros Blant /**

Mae hi wedi bod yn fraint eto eleni i'r ddau ohonon ni allu hyrwyddo gwaith Gweithredu dros Blant ymhlith eglwysi Cylchdaith Cymru.

Rydym wedi gallu defnyddio'r gwasanaethau a baratowyd gan Gweithredu dros Blant ar gyfer eu dydd Sul ym mis Gorffennaf ac ar gyfer y Nadolig. Mae'n gymaint o help eu bod ar gael yn Gymraeg.

Mae rhoddion yn parhau i gyrraedd, gan eglwysi ac unigolion ac hefyd o gasgliadau arbennig, e.e. pan ddathlodd Capel Soar, Cwm Nantyfyllon, Penygarnedd 150 mlwyddiant. Derbyniwyd £2,000 drwy ewyllys y Parch. Gwilym O. Jones, Croesoswallt.

Nid oedd Nadolig 2023 yn eithriad pan ddaeth i haelioni aelodau'r eglwysi i'r Apêl Anrhegion Nadolig flynyddol. Mae'r holl roddion a roddir yn parhau o fewn rhanbarth Gogledd Cymru; nid yn unig y rhai sy'n defnyddio'r lleoliadau'n uniongyrchol sy'n derbyn rhodd ond hefyd unrhyw frodyr a chwiorydd. Aethpwyd â thri llond car i'r swyddfa yn Longfields, Wrecsam, ynghyd â £175 yn cynnwys talebau rhodd o £5. O ganlyniad i'n hymweliadau gyda'r rhoddion cyn y Nadolig cawsom wahoddiad i 'Ginio Diolch' pan agorwyd Tŷ Haf yn swyddogol.

Mae cael slot yn y *Gwyliedydd* yn rhoi cyfle i ni adael i'r darllenwyr wybod am roddion ac unrhyw newyddion eraill ynglŷn â Gweithredu dros Blant.

*Margaret Morgan*

**Action for Children**

It’s been a privilege again this year for the two of us to be able to promote the work of Action for Children amongst the churches of Cylchdaith Cymru.

We have been able to use the services prepared by Action for Children both for their Sunday in July and for Christmas. It is such a help that they are available in Welsh.

Donations continue to be received, from churches and individuals but also from special collections, e.g. when Soar chapel, Cwm Nantyfyllon in Powys celebrated 150 years. A bequest of £2,000 was received through the will of Rev'd Gwilym O. Jones, Oswestry.

Christmas 2023 was no exception when it came to the generosity of the church members to the annual Christmas Gift Appeal. All gifts donated remain within the North Wales region and not only those who directly use the settings receive a gift but also any siblings. Three very full car loads were taken to the office at Longfields, in Wrexham, along with £175 made up of £5 gift vouchers. As a result of our visits with these gifts before Christmas we were invited to a ‘Thank you’ lunch when a Summer House was opened officially.

Having a slot in the *Gwyliedydd* gives us the opportunity to inform readers of donations and any other pieces of news regarding Action for Children.

*Margaret Morgan*

**Gwyliedydd**

Cyhoeddwyd chwe rhifyn o'r *Gwyliedydd* yn ystod blwyddyn Gyfundebol 2022-23. Mae gan yr Eglwys Fethodistaidd (Wesleaidd gynt) yng Nghymru hanes hir o gyhoeddi cyfnodolion, gyda'r *Gwyliedydd* ar y naill ffurf neu'r llall yn mynd yn ôl yn ddi-dor i 1877. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld newidiadau mawr yn ein hanes, gyda Synod Cymru a Wales Synod bellach wedi dod yn un, wrth gwrs. Rydym yn falch iawn o gael cefnogaeth frwd gan y Synod newydd i'r *Gwyliedydd* er mai Cylchdaith Cymru sy'n bennaf gyfrifol amdano, yn ariannol a golygyddol.

Derbyniwyd rhoddion hael iawn gan unigolion a chapeli tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r papur: roedd y cyfanswm (gan gynnwys rhodd o £400 gan Bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd a thanysgrifiadau) yn £3431.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn falch bod copïau'n cael eu hanfon i holl eglwysi'r Synod bellach, a gobeithio'n fawr y bydd y cynnwys ymhen amser yn adlewyrchu fwyfwy bob math o agweddau ar fywyd y Synod, yn ogystal â phob math o bethau sy'n mynd ymlaen y tu allan i'w ffiniau. Mae croeso i bawb anfon newyddion, lluniau neu ysgrifau ac yn enwedig unrhyw luniau addas ar gyfer y clawr. Rydym yn gofalu bod peth o'r cynnwys yn rhwydd i'w ddarllen ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg. Datblygiad arall yw y bydd y rhifynnau yn ymddangos ar wefan newydd y Synod sydd am gael ei lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni.

**Gwyliedydd**

Six editions of the Gwyliedydd were published in the 2022-23 Connexional year. The Methodist Church in Wales has a long history of publishing periodicals and the Gwyliedydd has been published continuously in one form or another since 1877. The last year has seen great change, of course, with the amalgamation of Synod Cymru and Wales Synod. We are greatly encouraged by all the support received from the new Synod for the Gwyliedydd, although financially and editorially it is chiefly the responsibility of Cylchdaith Cymru.

Generous gifts have been received from both individuals and churches towards publication and distribution costs. The total amount in 2022-23 was *£3431, which included subscriptions and a grant of £400 from the World Day of Prayer Committee.*

*Looking to the future, we are glad that copies are now sent to all churches in the Synod. It is hoped that in due course the contents of the Gwyliedydd will reflect all the new Synod's various activities as well as life outside our boundaries. Everyone is welcome to send news, photos and articles. We would especially welcome photos suitable for the front cover. Efforts are being made to ensure that some of the contents are particularly suitable for those learning Welsh. Another exciting development is that all editions are to appear on the Synod's new website, to be launched on St David's day.*

**Caplaniaeth Hosbisau**

Caplaniaeth Gofal Hosbis Dewi Sant

Fel y gall fy nghyd-aelodau o'r Synod ddychmygu, mae gwasanaethu fel Caplan i Ofal Hosbis Dewi Sant yn fraint fawr ac ar brydiau yn dipyn o her. Rydym yn darparu gofal Hosbis i dros 1000 o gleifion bob blwyddyn ar draws bwrdeistrefi Casnewydd, Torfaen, Mynwy, a Chaerffili. Mae'r rhan fwyaf o'r cleifion yn derbyn gofal diwedd oes yn eu cartref eu hunain a rhai hefyd yn mynychu ein gwasanaethau hosbis dydd, gyda nifer fach yn dewis dod i'r uned cleifion mewnol.

Mae'r gwasanaeth caplaniaeth, fel rhan o'r Tîm Cymorth i Deuluoedd, ar gael i'n holl gleifion a'u teuluoedd a'r nod yw bod yn rhan integredig o'r Hosbis ehangach. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys darparu gofal crefyddol, fel gwasanaethau Cymun rheolaidd neu weddïau ar ddiwedd oes. Fodd bynnag, y ffordd orau o ddisgrifio'r rhan helaethaf o'r gwaith yw ei fod yn cynnig gofal ysbrydol. Mae'n cynnwys hwyluso sgyrsiau lle gall cleifion fod yn agored i feddwl am arwyddocâd dyfnach eu salwch terfynol a pha adnoddau sydd ganddynt i'w cefnogi. Er enghraifft, efallai y byddwn yn edrych ar beth sy'n dod â heddwch, cysur, neu obaith. Neu pa ran sydd i ddiolchgarwch, edifeirwch, a chariad yn eu bywydau. Gwrando'n ofalus sydd wrth graidd Gofal Ysbrydol – i'r Enaid – ac mewn rhai ffyrdd mae'n debyg i hen gelfyddyd Cyfarwyddyd Ysbrydol, er i'r cyd-destun fod yn wahanol.

Rwyf hefyd yn y broses o gwblhau M.A. mewn Astudiaethau Caplaniaeth trwy Ganolfan Luther King ym Manceinion (safle Coleg Hartley Victoria gynt). Bu'n gwrs gwerth chweil ac rwy'n ddiolchgar i'r Eglwys Fethodistaidd am grant tuag at y ffioedd.

Andrew Webster

**Hospice Chaplaincy**

St David's Hospice Care Chaplaincy

As fellow members of Synod can imagine, serving as Chaplain to St David's Hospice Care is a great privilege and at times quite challenging. We provide Hospice care to over 1000 patients each year across the boroughs of Newport, Torfaen, Monmouth, and Caerphilly. Most patients receive end of life care in their own home whilst some also attend our day hospice services and a small number choose to come to out in patient unit.

The chaplaincy service, as part of the Family Support Team, is available to all our patients and their families and aims to be an integrated part of the wider Hospice. A part of the role involves delivering religious care, such as regular Communion services or final prayers. However, the larger proportion of the work is best understood as Spiritual Care which involves facilitating conversations where patients can explore the deeper significance of their terminal illness and what resources they may have to support them. For example, we might look at themes of what brings peace, comfort, or hope? Or the place of gratitude, regret, and love in their lives. The heart of Spiritual Care is listening at depth – for the Soul - and in some ways is similar to the ancient art of Spiritual Direction albeit in a different context.

I am also in the process of completing an MA in Chaplaincy Studies via The Luther King Centre in Manchester (former home to Hartley Victoria College). I have found the course most worthwhile and stimulating and I am grateful for the Methodist Church for a grant towards the fees.

Andrew Webster

**Adroddiad Rhwydwaith Dysgu 2022-23**

Datblygodd y Rhwydwaith Dysgu arddull 'un tîm' newydd ar draws y Cyfundeb gyda rolau Rheolwr newydd yn goruchwylio gwaith y tîm cyfan. Parhaodd staff y Rhwydwaith Dysgu i gyd-greu a chyd-gyflwyno llawer o raglenni Cyfundebol a chychwyn rhaglenni ychwanegol i gwrdd ag anghenion dysgu penodol.

Cynigodd RhD Cymru Wales ddigwyddiadau ac adnoddau i helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addoliad. Fe wnaethon ni deimlo arweiniad i archwilio gwrando gan wahodd pobl o'r Synod i ymuno â ni ar ein taith ac mae grŵp o bobl yn cyfarfod bob mis i archwilio ac ymarfer gwrando. Buom yn cefnogi gwaith Grŵp Galwad y Synod ac yn yr un modd yn cefnogi gwaith Momentwm.

Gadawodd Gareth Bennett ei swydd ym mis Mai a phenodwyd Roxanne Bainbridge fel y Swyddog Dysgu a Datblygu newydd sydd wedi'i chysylltu â'r Dalaith.

Ar gyfer 2023-24 mae'r RhD yn parhau i newid mewn ymateb i anghenion ar draws y Cyfundeb, y gymdeithas a'r greadigaeth; rydym yn gweithio tuag at ein targed Sero Net, gan ddatblygu ein harfer cynhwysol a cheisio cyfiawnder, a dyfnhau cydweithredu. Mae ein darpariaethau ar-lein yn cynyddu ac eto mae ein tîm yn parhau i fod ar gael fel y bo'n briodol.

Rydym wedi symud tuag at fodel canolog o gyfathrebu gyda'n Grŵp Facebook a'n Grŵp Facebook Adnoddau Methodistaidd a chylchlythyr LN misol gyda fersiwn ddwyieithog i Gymru.

Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Os hoffech wybod mwy am ein gwaith, ewch i'n tudalennau gwe.

Delyth Wyn Davies

**Learning Network Report 2022-23**

The Learning Network developed a new 'one team' approach across the Connexion with new Manager roles having oversight of the whole team's work. The Learning Network staff continued to co-create and co-deliver many Connexional programmes and initiated additional programmes to meet specific learning needs.

The Cymru Wales LN offered events and resources to help with increasing the use of Welsh in worship. We felt led to explore listening and invited people from the Synod to join with us on our journey with a group of people meeting monthly to explore and practice listening. We continued to support the work of the Synod's Vocations Group and in the same way supported the work of Momentwm.

Gareth Bennett left his post in May and Roxanne Bainbridge was appointed as the new Learning and Development Officer aligned to the District.

For 2023-24 the LN continues to change in response to needs across the Connexion, society and creation; we are working towards our Net Zero target, evolving our inclusive and justice-seeking practice, and deepening collaboration. Our online provisions are increasing yet our team remains flexibly available as appropriate.

We have moved towards a centralised model of communicating with our Facebook group and Methodist Resources Facebook Group and a monthly LN newsletter with a bilingual version for Wales.

Please get in touch with us. If you would like to know more about our work, please visit our new webpage area.

Delyth Wyn Davies

**Adroddiad y Pregethwyr Lleol**

Mae'r holl Gylchdeithiau wedi anfon eu datganiad blynyddol i mewn ac yn ein 16 Cylchdaith roedd gennym, ar y 31ain o Awst, 232 o Bregethwyr Lleol, 151 ohonynt yn weithredol. Mae 26 ar nodyn neu ar brawf, ac mae 86 o Arweinwyr Addoli. Nid oes ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol gan mai hon yw blwyddyn gyntaf Synod Cymru Wales. Rwy'n ddiolchgar i Ysgrifenyddion Cyfarfodydd y Pregethwyr Lleol/ Arweinyddion Addoli Cylchdeithiol, a ddarparodd yr wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

Gyda thristwch yr adroddaf am farwolaeth nifer o Bregethwyr Lleol Cydnabyddedig:

| | |
|---|---|
| Bangor a Chaergybi | Olive May Penlington |
| Bangor a Chaergybi | Ian Russell |
| Bwcle a Glannau Dyfrdwy | Francis Wilson |
| Conwy a Phrestatyn | John Pass |
| Conwy a Phrestatyn | Kenneth Russell |
| Bryniau a Chymoedd Gwent | June Pooley |

Cofiwn am eu ffyddlondeb yn arwain addoliad a chyhoeddi efengyl Iesu Grist.

Ymhlith y datblygiadau a welwyd, i alluogi pobl i addoli, cawsom wasanaethau wedi'u ffrydio'n fyw. Fe barhaodd y rhain wedi inni allu ailddechrau cyfarfod wyneb yn wyneb ac mae pobl na all fynd allan yn gwerthfawrogi hyn. Er y gall cynulleidfaoedd niferus glywed y neges yn y modd hwn, ni cheir cysylltiad personol.

Dim ond un gwasanaeth ar y Sul sydd gan y rhan fwyaf o eglwysi bellach. Mae gan rai Cylchdeithiau wasanaethau ychwanegol yn achlysurol ar nos Sul, sef rhai llai traddodiadol weithiau.

Cynhaliwyd Mis y Beibl yn rhai o'r Cylchdeithiau. Teimlwyd bod dewis Llyfr y Datguddiad braidd yn gymhleth ac na allai eglwysi wneud mwy nag edrych yn fras ar rai themâu. Er hynny roedd y deunydd paratoi a'r sesiynau yn ddefnyddiol. Defnyddiodd rhai Cylchdeithiau y themâu mewn Astudiaethau Beiblaidd yn lle mewn oedfaon pregethu.

Diolchwn i'r uwchrifiaid sy'n parhau i arwain addoliad lle bynnag y gallant.

Gan fod y Synod yn awr yn ddwyieithog, mae rhai eglwysi wedi cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gwasanaethau.

Mae gennym ni Dduw sy'n ein caru ni, ac a anfonodd Iesu i fod yn Waredwr i ni, a'r Ysbryd Glân i'n cynnal. Sut y gallwn ni beidio uno i foli ac addoli Duw. Parhewch i weddïo, os gwelwch yn dda, dros bawb sy'n cael y fraint o arwain cynulleidfaoedd mewn addoliad o wythnos i wythnos.

## Local Preachers Report

Each Circuit has sent in their annual return and in our 16 Circuits there were, on 31st August, 232 Local Preachers, of whom 151 are active. There are 26 who are on note or on trial, and 86 Worship Leaders. There are no figures for the previous year as this is the first year of Wales Synod Cymru. I am grateful to the Circuit Local Preacher/Worship Leader Meetings' Secretaries who provide the information which goes to make up this report.

It is with sadness I report the death of Accredited Local Preachers:

| | |
|---|---|
| Bangor & Holyhead | Olive May Penlington |
| Bangor & Holyhead | Ian Russell |
| Buckley & Deeside | Francis Wilson |
| Conwy & Prestatyn | John Pass |
| Conwy & Prestatyn | Kenneth Russell |
| Gwent Hills & Vales | June Pooley |

We remember their faithfulness in the leading of worship and the proclamation of the gospel of Jesus Christ.

Developments in providing worship opportunities have included live-streaming services which continue even as we can meet in person. This is appreciated by those who need to remain at home. These can be large congregations who hear the message, but we miss the personal connection.

Most churches now have only one service on a Sunday. Some Circuits have occasional additional Sunday evening services which can be of a less traditional nature.

Bible month has taken place in some Circuits. The choice of Revelation was felt to be somewhat complex and did not enable churches to get more than a brief look at some themes. However the preparation material and sessions were found to be useful, and some Circuits used the themes in Bible Studies rather than preaching services.

We thank the supernumerary ministers who continue to lead worship as and when and where they can. The new bi-lingual nature of the new Synod has encouraged some churches to explore increasing the use of Welsh in their services.

We have a God who loves us, and sent Jesus to be our Saviour, and the Holy Spirit to sustain us. We can but collectively offer our praise and adoration as we meet together. Please continue to pray for all who have the privilege of leading congregations in worship week by week.

**Merched Methodistaidd, Adran y Gogledd**

Bu Merched Methodistaidd yn brysur iawn eleni yng Nghylchdaith Conwy a Phrestatyn. Cynhaliwyd nifer o wahanol ddigwyddiadau er mwyn dod at ein gilydd mewn cymdeithas a chodi arian.

Daeth nifer arbennig o dda i'r Te Prynhawn yn Eglwys Fethodistaidd Dewi Sant ar 12 Awst, a chododd y digwyddiad hwn ymhell dros £300 i elusen Mind. Hefyd, anfonwyd dros £100 i Ferched Methodistaidd y Cyfundeb.

Mwynhaodd y rhai oedd yn bresennol yn y Te Prynhawn gyflwyniad ardderchog gan Mind. Derbyniwyd grant o £600 gan Bwyllgor Gwaith Urdd Wesley; cyflwynwyd hwn ar ddiwedd y prynhawn.

Dyma grynodeb byr o'r gweithgareddau rydym wedi eu cynnal ac sydd ar y gweill:-

Bore Tawel yn Eglwys Fethodistaidd Llanddulas ar 14 Hydref 2023.

Crefftau Nadolig yn Eglwys Fethodistaidd Hen Golwyn ar 18 Tachwedd 2023.

Gwasanaeth Offrwm y Pasg yn Eglwys Fethodistaidd Hen Golwyn ar 14 Ebrill 2024.

Taith Grawys yn 2024, yn canolbwyntio ar Wythnos Merched y Pasg, yn Eglwys Fethodistaidd Dewi Sant Llandudno. LL30 1YY. 16 Mawrth 2024.

Bore tawel yr Adfent yn Eglwys Fethodistaidd Llanddulas ar 30 Tachwedd 2024.

Yn dilyn ad-drefnu Merched Methodistaidd y Cyfundeb, Susan Murrell yw llysgennad Gogledd Cymru yn ogystal ag Ardaloedd Lerpwl, Manceinion a Chaer a Stoke.

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Merched Methodistaidd yn Swanwick rhwng 19 a 21 Ebrill 2024.

Byddai'n braf clywed gan gyfarfodydd Merched Methodistaidd eraill yn yr ardal a chyhoeddi manylion yma.

Norma Boocock, Llywydd Gogledd y Synod

**MWiB Northern Section**

The Conwy & Prestatyn Circuit MWiB has been very busy this year holding and preparing for various Fellowship and Fund-Raising events.

The Afternoon Tea at St David's Methodist Church on 12th August was particularly well attended, the event raised Well over £300 for The Charity Mind. Plus, an amount exceeding £100 sent to Connexional MWiB.

An excellent presentation from Mind was appreciated by those present at the Afternoon Tea and a grant of £600 was received from the Wesley Guild Executive which was presented at the end of the afternoon.

A brief resume of our past and forthcoming activities is as follows.
A Quiet Morning at Llandullas Methodist Church on 14th October 2023.
Christmas Crafts at Old Colwyn Methodist Church on 18th November 2023
Easter offering Service at Old Colwyn Methodist Church 14th April 2024
A Lent Journey in 2024, focusing on the Women of Easter Week, at St David's Methodist Church Llandudno. LL30 1YY. 16th March 2024
AN Advent Quiet morning at Llandullas Methodist Church on 30th November 2024

Following the re-organisation of Connectional MWiB Susan Murrell is now the ambassador for North Wales, in line with Liverpool, Manchester, Chester & Stoke Areas.

Swanwick MWiB annual Conference takes place from 19th to 21st April 2024

We would enjoy hearing from other MWiB meetings in the area which could be published here.

*Norma Boocock President Synod North*

Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain

Adroddiad 2022-23

Bu i Margaret Morgan ac Elizabeth Jones ein cynrychioli yn y gynhadledd yn Swanwick yn Ebrill 2023. Mae'r hanes yn llawn i'w weld yn y *Gwyliedydd* (Mehefin-Gorffennaf 2023).

Diolch i Gwenda Humphreys am drefnu dosbarthu a chasglu amlenni pwrpasol ar gyfer Offrwm y Pasg.

Trefnwyd cyfarfod y Gwanwyn ym Methel, Prestatyn. Bu i bawb gyfrannu platiaid o fwyd i'w rannu gyda'n gilydd dros ginio. Yn y prynhawn cawsom weld a rhannu syniadau am wahanol grefftau y bu i rai o'n haelodau ymddiddori ynddynt. Trwy gyfrwng y crefftau bu iddynt gyfarfod â ffrindiau newydd a helpu eraill oedd mewn angen.

Trosglwyddwyd y llywyddiaeth i ofal Mrs Margaret Morgan yn ein pwyllgor ym mis Hydref. Diolchodd Gwenda i Elizabeth Jones am ei gwaith.

Byddwn yn cynnal cyfarfod ar ffurf panel "Hawl i Holi" yn yr ysgoldy yng nghapel Seilo yn Llandudno ym mis Hydref 2024. Cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn. Croeso i bawb.

*Rona Morris*

Methodist Women in Britain

Report: 2022-23

Margaret Morgan and Elizabeth Jones were our representatives at the Swanwick MwiB conference, April 2023. A full report can be found in the *Gwyliedydd*, June-July 2023.

We are grateful to Gwenda Humphreys for organising the distribution and collection of Easter Offering envelopes.

Our Spring meeting was held at Bethel, Prestatyn. Everyone contributed a plate of food which we shared together at lunchtime. In the afternoon we saw various crafts that some of our members had enjoyed making, sharing ideas about crafts. By means of these crafts they had met new friends and helped people in need.

At our October committee meeting the presidency was handed over to Mrs Margaret Morgan. Gwenda thanked Elizabeth Jones for her work.

We will be holding a "Question Time Panel" meeting in the Seilo chapel hall, Llandudno on 19th October 2024, 2pm. A warm welcome is extended to all and we will be very happy to see Welsh learners at our meetings.

*Rona Morris*

**Ymddiriedolaeth Elusennol y Synod**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg a'i llywodraethu gan 9 Ymddiriedolwr.

Pwrpas yr Ymddiriedolaeth yw cefnogi gwaith Synod Cymru Wales yr Eglwys Fethodistaidd, mewn tri maes yn benodol sef cynnal a chadw ac adnewyddu mansys a chapeli; encilion hyfforddi i weinidogion a lleygwyr fel y cwrs Croeso i Gymru; a chefnogi gweinidogion a'u teuluoedd. Rydym wedi cefnogi yn arbennig weinidogion, ynghyd â'u teuluoedd, sy'n cyrraedd o'r eglwys fyd-eang, pan fydd arnynt angen gwneud ceisiadau fisa ac ati.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2023 cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth grantiau gwerth cyfanswm o £32,526.00.

Gellir gwneud cais i'r ysgrifennydd John Hexter drwy e-bost unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

( jchexter5@btinternet.com )

## Synod Charitable Trust

The Trust is run and governed by 9 Trustees.

The purpose of the Trust is to support the work of the Wales Synod of the Methodist Church notably three areas, *first* in the maintenance and refurbishment of manses and chapels, *secondly* ministerial and lay training retreats like the Welcome to Wales course, and *thirdly* the support of ministers and their families particularly we have supported ministers and their families arriving form the world church with visa applications etc.

In the year ended 5 April 2023 the Trust approved grants totaling £32,526.00.

Application can be made to the secretary John Hexter by email at any time during the year. (jchexter5@btinternet.com)

**Galluogwr y Synod ar gyfer Cynulleidfaoedd gyda Diwylliannau Amrywiol**

Wrth edrych yn ôl dros flwyddyn ryfeddol arall fel Galluogwr Synod Cymru Wales ar gyfer Cynulleidfaoedd gyda Diwylliannau Amrywiol, rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth ddiwyro'r Synod, y Cylchdeithiau, Cymunedau ac Eglwysi lleol ledled Cymru. Waeth beth fo'r tymor neu'r lleoliad, mae fy ymrwymiad yn parhau'n ddiysgog i wasanaethu cymunedau gyda diwylliannau amrywiol ledled Cymru.

Mae Canolfan y Drindod yng Nghaerdydd wedi bod yn rhan annatod o'm gwaith ers 2008. Yno rwyf bellach yn gwasanaethu ar y Bwrdd Gweithredol sy'n goruchwylio Prosiect y Drindod. At hynny, mae'r bobl sydd wedi dod ynghyd mewn cymdeithas dan fy arweiniad, fel y Gymdeithas Wrdw/Hindi/Pwnjabi a'r Eglwys Eritreaidd, Ethiopaidd a De India, yn parhau i dyfu mewn ffydd ac mewn nifer. Mae hyn yn arwydd o barodrwydd Cymru i groesawu amrywiaeth.

Ym mis Mawrth 2023, roedd hi'n flwyddyn ers i mi a fy mab Daud Irfan – sy'n un o gyn Lywyddion Ieuenctid yr Eglwys Fethodistaidd – wneud ein taith 'Dynion ar Genhadaeth' ac fe wnaethom benderfynu dringo Pen y Fan fel arwydd o'n hymrwymiad i'r mentrau ystyrlon y bu inni eisoes ddechrau arnynt gyda'n gilydd.

Wrth ddathlu'r Nadolig gyda chynulleidfaoedd lle ceir diwylliannau amrywiol, llwyfannwyd drama'r geni a chanwyd carolau mewn amryw o ieithoedd, gan feithrin cysylltiadau â'r gymuned yng Nghaerdydd a Phort Talbot.

Ym mlwyddyn gyfundebol 2023/24, estynnais ddathliadau'r Nadolig i gynulleidfaoedd ethnig amrywiol drwy ddod â charolau i gartrefi ar draws y De, o Gasnewydd i Rydaman.

Wrth fynd ymlaen i'r dyfodol, un rhan allweddol o'm gwaith yn y flwyddyn i ddod fydd sefydlu cymunedau Cristnogol ethnig amrywiol yng Nghymru, gan feithrin eu perthnasoedd a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod fel grwpiau Cristnogol hollbwysig yn ein gwlad. Bydd fy ngwaith o gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn parhau, gan weithio hefyd er lles eu teuluoedd, rhywbeth rwyf yn ei wneud eisoes ac sydd yn cynnwys helpu gyda threfnu llefydd i blant mewn ysgolion, ymweld ag ysbytai, helpu pobl sy'n symud tŷ, gweddïau mewn teuluoedd a mwy.

Am y tro cyntaf yn hanes y Senedd, mae'n bleser gennyf gyhoeddi y byddaf ar 15 Mai 2024 yn dathlu'r Sulgwyn yn adeilad y Senedd yng Nghaerdydd, lle bydd Cristnogion o bob rhan o'r byd yn ymgynnull i addoli gyda'i gilydd. Y Senedd ei hun sydd wedi fy ngwahodd i ddechrau cynllunio digwyddiadau Cristnogol ar lefel y Llywodraeth ac mae llawer o bobl sydd a wnelo â'r llywodraeth yn falch bod hyn yn digwydd.

I mi, mae seiliau cryf y mudiad Methodistaidd yn gymorth mawr wrth imi gyflawni fy ngwaith, oherwydd inni ddysgu gan John Wesley mai y Byd oedd ei gynulleidfa. Rwyf innau'n dal i arddel fy nghred mai Cymru yw fy nghynulleidfa.

**Synod Enabler for Culturally Diverse Congregations.**

Reflecting on another remarkable year as the Synod Enabler for Culturally Diverse Congregations in Wales Synod Cymru, I'm grateful for the unwavering support from the Synod, Circuits, Communities, and local Churches across Wales. Regardless of the season or location, my commitment remains steadfast to serving culturally diverse communities across Wales.

The Trinity Centre in Cardiff has been integral to my work since 2008, where I now serve on the Executive Board overseeing the Trinity Project. Additionally, the fellowships I've established, like the Urdu/Hindi/Punjabi Fellowship and the Eritrean, Ethiopian, and South Indian Congregational Church, continue to grow in their faith and numbers, reflecting Wales's embrace of diversity.

In March 2023, my son Daud Irfan, a former Youth President of the Methodist Church, and I celebrated the one-year anniversary of our 'Men on a Mission Walk' by climbing up Pen-Y-Fan, symbolizing our dedication to the meaningful initiatives which we had previously began together.

Throughout the year, we celebrated Christmas with culturally diverse congregations through nativity plays and carol singing in multiple languages, fostering community engagement in Cardiff and Port Talbot. In the connexional year 2023/24, I extended Christmas celebrations to ethnically diverse congregations by bringing carols to homes across South Wales, from Newport to Ammanford.

Moving forward, a key focus for my role in the upcoming year is establishing ethnically diverse Christian communities in Wales, fostering their relationships and recognition as integral Christian groups within the country. This will be continued by supporting asylum seekers and refugees and working for the betterment of their families which I currently work on, including, school admissions, hospital visits, house moving, family prayers and more.

For the first time in the history of the Senedd, I am glad to announce that on 15$^{th}$ May 2024, I will be planning a Pentecost Celebration inside the Senedd building in Cardiff where Christians from around the world will gather to worship with one another. This invitation to start planning Christian events on a governmental level was extended to me from the Senedd and is being appreciated and supported by many people in the government.

A strong pillar for me which helps me to carry out my role is the strong foundation of Methodism which we learn from John Wesley that the World was his congregation, I am still strong on my words that Wales is My congregation.

## Y Gymdeithas Hanes

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru yn Llanidloes ar Hydref 24ain 1946. Traddodwyd darlith ar ‘John Wesley yng Nghymru’ a dadorchuddiwyd plac ar ‘Garreg Wesley’ yn y lle hwnnw. Diben y Gymdeithas yw casglu a diogelu defnyddiau o bob math, ynglŷn â’r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru, a fydd o werth a diddordeb hanesyddol. Yn ogystal, fe gyhoeddir cyfnodolyn (*Bathafarn* rhwng 1946 a 2003, yna *Bathafarn Bach* yn y blynyddoedd diweddar) yn ymwneud â hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.

Braf yw cael dweud fod Pwyllgor y Gymdeithas y dyddiau hyn mor brysur ag erioed yn trefnu digwyddiadau megis pererindodau a sawl darlith, gyda chefnogaeth gref i bob digwyddiad.

Bu’n rhaid gohirio rhai digwyddiadau oherwydd y pandemig ond, diolch i’r Pwyllgor, daeth pethau’n ôl i drefn gydag amser a threfnwyd cyfarfod arbennig ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan yn Awst 2023.

Casglu lluniau ydi’r prosiect mawr y dyddiau hyn – mae cymaint ohonynt o gwmpas y wlad, yn lluniau capeli, gweinidogion, plant yr Ysgol Sul a’r Band of Hope, gwibdeithiau Ysgol Sul, te parti, cymanfa, cyngerdd ac ambell ddrama. Lluniau sy’n dod ag atgofion i lawer ond sydd hefyd yn llawn eco o fwrlwm bod yn rhan o Eglwys Iesu Grist. Bydd yr holl luniau a gesglir yn cael eu cynnwys yng Nghasgliad y Werin, oherwydd mae’n hollbwysig diogelu pob agwedd ar ein hanes.

*Robin Jones*

## The Historical Society of the Methodist Church in Wales

The first meeting of the Historical Society was held in Llanidloes on 24th October 1946, with a lecture on 'John Wesley in Wales' and the unveiling of a plaque at the Market Hall marking the site where Wesley preached on several occasions. The aim of the Society is to gather and safeguard for the future a variety of materials concerning the Methodist Church in Wales that are of historical interest and value. The *Bathafarn* publication (1946 – 2003) and later *Bathafarn Bach* provide a valuable record of the proceedings of the society.

It is good to say that the Historical Society Committee is as active as ever, organising pilgrimages and lectures which are well supported. The pandemic brought things to a halt for a while but activities soon resumed. A special meeting was held at the National Eisteddfod in Boduan in August 2023 where simultaneous translation was provided.

In this last year we have started a major project collecting photographs. There is of course a wealth of photographs – of chapels, ministers, children's activities, trips, tea-parties, singing festivals and concerts, dramatic societies – all testifying to our history as Methodists. They hold many memories of being part of the Church of Jesus and are a record of the excitement and interest connected with chapel life. All the photographs collected will be included in the People's Collection Wales, so that if possible all aspects of our history are recorded.

*Robin Jones*

# Mynegai


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol - Cyflwyniad | 2 |
| Adroddiad Cyllid y Synod | 6 |
| Caplaniaeth Hosbisau | 24 |
| Cynlluniau a Grantiau'r Synod | 14 |
| Diogelu | 12 |
| Dsygu | 26 |
| Eiddo | 10 |
| Galluogwr y Synod | 35 |
| Gweithredu dros Blant | 20 |
| *Gwyliedydd* | 22 |
| Merched Methodistaidd | 31 |
| Pregethwyr Lleol | 28 |
| Pwyllgor Polisi'r Synod | 4 |
| Y Gymdeithas Hanes | 37 |
| Ymddiriedolaeth Elusennol y Synod | 34 |

# Index


| | |
|---|---|
| Action for Children | 21 |
| Amelia Trust Farm | 19 |
| Finance | 7 |
| Gwyliedydd | 23 |
| Hospice Chaplaincy | 25 |
| Learning Network | 27 |
| Local Preachers | 29 |
| Methodist Women in Britain | 30 |
| Property | 11 |
| Synod Charitable Trust | 34 |
| Synod Enabler | 36 |
| Synod Policy Committee | 5 |
| Synod Safeguarding | 13 |
| Synod Schemes and Grants | 16 |
| Wales Synod – Annual Report | 3 |
| Y Gymdeithas Hanes | 38 |